

## Saffari Bywyd Gwyllt Nant Gwrtheyrn

Mae gan Nant Gwrtheyrn (neu'r 'Nant' fel y'i gelwir ar lafar) gyfoeth o hanes yn deillio'n ôl dros filoedd o flynyddoedd. Mae yma fryngaerau o Oes yr Haearn, chwedl Rhys a Meinir, ac, yn fwy diweddar, olion chwaredli o'r 19<sup>eg</sup> a'r 20<sup>fed</sup> ganrif.

Erbyn heddiw, cartref y Ganolfan Dreftadaeth a'r Iaith Gymraeg yw'r Nant. Mae hi wedi'i hamgylchynu â llethrau arfordirol, clogwyni serth, traethau graeanog, a mynyddoedd yr Eifl i'r dwyrain - oll yn helpu i gynnal amrywiaeth o fywyd gwyllt.

Mae'r clystyrau o goedlannau aeddfed, gan gynnwys y goedwig dderw fechan ar hyd llwybr yr arfordir tua'r de, yn gynefinoedd gwych i amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid gan gynnwys mamaliaid, adar a gwahanol fathau o fwsogl a ffwng. Mae'r Nant hefyd yn le gwych i weld bywyd gwyllt y môr ac mae clogwyni Carreg y Llam wedi cael eu cydnabod fel safle nythu o bwysigrwydd cenedlaethol i'r llusrs, y wylan goesddu a gwylogod. Mae bae cysgodol Porth y Nant yn le da i weld mamaliaid morol, gan gynnwys y Llamhidydd a Dolffiniaid trwyn potel. Un o nodweddion arbennig yr ardal yw'r geifr gwyllt sy'n erwydro'n rhydd yma. Mae gan y geifr eneteg unigryw am eu bod wedi cael eu gwahanu oddi wrth boblogaethau eraill am genedlaethau.

live

## Nant Gwrtheyrn Wildlife Safari

Nestled in this secluded spot on the north coast of Llŷn, Nant Gwrtheyrn (or The Nant) has a rich history dating back millennia. Archaeological evidence of Iron Age hillforts, the folktale of Rhys a Meinir and more recently the imprint left by quarrying during the 19<sup>th</sup> and 20<sup>th</sup> centuries are just some examples.

Now, Nant Gwrtheyrn is the Welsh language and Heritage Centre, surrounded by coastal slopes, broadleaf thickets, sheer cliffs, shingled beaches, and the mountains to its east, all helping to support a variety of wildlife.

Mature stands of woodland, including the small oak forest along the coast path to the south provide fantastic habitats for an array of flora and fauna including mammals, birds, mosses and fungi. Nant is also a great place to spot marine wildlife, with the Carreg y Llam cliffs being recognised as a nationally important nesting site for razorbills, kittiwakes and guillemots. From a good vantage point and with some patience, the sheltered bay of Porth y Nant is a good place to see marine mammals including porpoise and bottlenose dolphins. One of the unique features of the area are the feral goats which wander freely. This group of goats are genetically unique as they've been isolated from other populations for generations.

ecoamgueddfa



## Saffari Bywyd Gwyllt Nant Gwrtheyrn Nant Gwrtheyrn Wildlife Safari



[www.ecomuseumlive.eu](http://www.ecomuseumlive.eu)  
[www.ecoamgueddfa.org](http://www.ecoamgueddfa.org)





## Geifr Gwyllt

Er nad ydyn yn rywogaeth gynhenid, mae geifr wedi bod yn crwydro'r ardal o amgylch Nant Gwrtheyrn ers canrifoedd. Yn wreiddiol, byddai'r rhain wedi bod yn dda byw dof a oedd naill ai wedi dianc neu wedi cael eu gadael yn rhydd ac a oedd wedi mynd ymlaen i sefydlu gyr gwyllt dros amser. Mae'r geifr yma yn Nant Gwrtheyrn yn unigryw oherwydd eu bod wedi bod yn byw ar wahân i yfroedd eraill. Maen nhw'n llai na geifr Eryri ac o liv brown golau. Er y gellid eu hystyried yn rhywbeth rhwng da byw a bywyd gwyllt, roedd yn rhaid i ni eu cynnwys ar ein rhestr Pump Mawr.

## Y Gnocell Fraith Fwyaf

Yr arwydd cyntaf fod yr aderyn yn agos yw'r swm tapio wrth iddo dyrchu i mewn i goeden naill ai er mwyn creu lle i nythu, i chwilio am bryfed neu er mwyn cyfathrebu â chnocelloid eraill. Mae'n aderyn canolig o ran maint, tua'r un maint ag aderyn du. Mae cynffon y gwryw ar fenyw yn goch oddi tanodd ond mae gan y gwryw hefyd gap coch ar gefn ei ben. Mae gan adar ifanc goron goch lachar ac mae eu cynffon yn oleuach oddi tanodd. Maen nhw i'w gweld yn aml yn cydio'n dynn wrth foncyff coeden yn uchel i fyny. Mae eu ffordd drawiadol o hefan - fel petaent yn bownsio drwy'r awyr - yn help i'w hadnabod hefyd.

## Cigfran

Mae'r cigfran yn aderyn mawr du, hynod o ddeallus. Mae'n nythu yn yr hen chwareli yma yn y Nant ac yn bwyta mamaliaid bach, anifeiliaid di-asgwrn-cefn, wyau, adar eraill a chreaduriaid sydd wedi marw ac yn pydru. Rydyn yn gwybod bod cigfrain weithiau'n defnyddio twls i gael bwyd ac i amddiffyn eu darn nhw o dir. Mae nhw yn gallu dynwared adar eraill hefyd. Yng

ngogledd America maen nhw wedi cael eu gweld yn dynwared blaidd yn udo er mwyn denu bleiddiaid at garcas i helpu ei dynnu'n ddarnau er mwyn i'r aderyn allu ei fwyta.

## Coed Cyll

Mae coed cyll yn bwysig i lawer o anifeiliaid. Mae eu cnau yn fwyd i gnoCELL y coed, sgrech y coed, delor y cnau a mamaliaid bach. Mae'r rhain yn goed gwych ar gyfer eu bondocio sef pan mae coed yn cael eu torri i lawr bron iawn hyd lefel y ddaear a'r pyst yn cael eu defnyddio i godi ffensys, deltau ac fel polion ffa. Roeddylnt hyd yn oed yn cael eu defnyddio i adeiladu waliau plethwaith a chlai. Wedyn mae'r coed yn cael eu gadael i aildyfu, sy'n cymryd rhwng 5 a 10 mlynedd. Mewn mytholeg Geltaidd, y gollen yw coeden doethineb. Mae un chwedl yn sôn am goed cyll oedd yn tyfu o amgylch pwll yn llawn o eogiaid oedd yn bwyta'r cnau wrth iddyn nhw syrthio i'r dŵr. Byddai unrhyw un a oedd yn bwyta pysgodyn o'r pwll hwn yn dod yn arweinydd arwrol.

## Gwyfyn yr Ymerawdwr

Mae hwn yn wyfyn trawiadol iawn sy'n hawdd ei adnabod. Mae ganddo farciau mawr sy'n cael eu galw'n smotiau llygaid am eu bod yn edrych fel llygaid, ar bob un o'i bedair adain. Oherwydd fod ei adenydd ol yn oren llachar a'r ffaith ei fod yn hedfan yn ystod y dydd, mae'n bosib camgymryd y gwryw am löyn byw. Mae'r fenyw yn fwy, ond yn llai lliwgar a dim ond yn y nos y mae hi'n hedfan, ac mae hi'n cuddio yn ystod y dydd. O ddiwedd fis Mawrth hyd fis Mai yw eu tymor hedfan ac mae'r lindys i'w gweld o ddiwedd fis Mai hyd fis Awst. Mae'r lindys yn bwydo ar y grug a phlanhigion eraill sy'n golygu bod y llecynnau llawn grug uwchben y Nant yn lle da i fynd i chwilio amdanynt.



Gwyfyn yr Ymerawdwr  
Emperor Moth



Cnocell Fraith  
Fwyaf  
Great spotted  
woodpecker



Cigfran  
Raven



Geifr Gwyllt  
Feral goats



Coed Cyll  
Hazelwood woodland

## Feral goats

Although not native, goats have roamed the area around Nant Gwrtheyrn for centuries. They would have been domesticated livestock originally that either escaped or were released, establishing a wild herd over time. The goats here at Nant Gwrtheyrn are unique, having been isolated from other herds, they're smaller than the Snowdonia goats and are a light brown colour. Although they could be considered somewhere between livestock and wildlife, we had to include them on our Big 5 list.

## Hazel

Hazel trees are important to several animals, their nuts providing food for woodpeckers, jays, nuthatches and small mammals. These trees are great for coppicing, where they're cut down to near ground level with the poles being used for fencing, trellises, bean poles and were even used in the construction of walls using the wattle and daub method. The trees are then left to grow back which takes 5-10 years. In Celtic mythology, hazel is the tree of wisdom. One tale tells of hazel trees that grew around a pool full of salmon which ate the nuts as they fell into the water. Anyone who ate fish from this pool would become heroic leaders in history.

## Raven

Ravens are large, black, highly intelligent birds. They nest in the old quarries here at Nant Gwrtheyrn feeding on small mammals, invertebrates, eggs, other birds and carrion (dead decaying animals). Ravens have been known to use tools to gain food and also defend their territory and are able to imitate other birds. In north America they were

observed mimicking a wolf howl to attract wolves to a carcass in order to help break it apart making it available for the bird.

## Great spotted woodpecker

The first sign of this bird is often the tapping noise as they chisel into a tree, either to create a nest site, in search of insects or to communicate with other woodpeckers. They're medium in size, about the same as blackbirds. Both males and females have a bright red undertail; the male also has a red cap on the back of the head. Young birds have a bright red crown and a paler undertail. They're often seen clinging high up on the sides of tree trunks, or their distinctive up and down bouncing flight gives them away.

## Emperor moth

A very striking and easily recognisable moth, with big eye-like markings called eyespots, one on each of their four wings. The bright orange hindwings and the fact that they fly during the day means males can be mistaken for butterflies. The females are larger and less colourful and only fly at night, lying low during the day. Their flight season is late March to May, and the caterpillars can be seen from late May to August. The caterpillars feed on heather amongst other plants, meaning the heathy areas above Nant are a good place to search for them.





Brangoesgoch Choughs

Gwysyllt yr ymerawdwr  
Emperor moth

Llithfaen

B4417

Nesym →

Eaergribin

Greater  
Cnocell fraith fwyaf

Bwlch

Ciliau Isaf

Carreg y Llann

S. Tre'r Ceiri

Maes Parcio Car Park

Gallt y Bwlch

Yr Eifl

Bancarth

Garn Ganol 564

Gollen

Graig Ddu

au llosgi  
Cwarel

Ddydd trwyn pafel

Boltlenose  
dalphyn

Gwysyllt yr ymerawdwr  
Emperor moth

Hafel

Amanita  
Muscaria

Nant Gwrtheyrn

Capi Nant Gwrtheyrn

Maes Parcio Car Park

Porth y Nant

Illus

Raven-bill

Feral goats

Cigfran

Raven

Cwarel  
Quarry

Geyr Goyllt

Garn Fôr 444m

Trwyn y Gorlech

— Lluwybr Yr Eifl Route:

— 13.2 Milltir/Miles, Cymhedrol/Moderate, 2 Awr/2 Hours:

Darlun gan Elin Huws / Artwork by Elin Huws